Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cadeirydd:
**Dr Aled Eurig**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

IOCD 02
Goblygiadau data y Cyfrifiad i'r
fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
Implications of the Census data for the
legislative framework that supports
Welsh-Medium Education Provision
Ymateb gan: Coleg Cymraeg Cenedlaethol / Response from: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cyfeiriad e-bost: SeneddDiwylliant@Senedd.Cymru

16 Ionawr 2023

Annwyl Gadeirydd

Cyf: Galw am ragor o dystoliaeth ar oblygiadau data'r Cyfrifiad i ymchwiliad presennol ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Roeddwn yn falch iawn o'r cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor yghylch yr ymgynghoriad pwysig hwn a diolch am y cyfle i ddarparu tystiolaeth ychwanegol yn dilyn cyhoeddi data'r Cyfrifiad ar yr iaith Gymraeg.

Fel rhan o dystiolaeth gwreiddiol y Coleg i'r ymgynghoriad, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at yr her sylweddol o sicrhau fod gennym gyflenwad digonol o athrawon sy'n gymwys i ddysgu mewn ysgolion Cymraeg, dwyieithog, a hefyd i gyflwyno'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n bennaf ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

Fel sy'n hysbys, ar hyn o bryd, nid oes digon o siaradwyr Cymraeg yn dewis hyfforddi fel athrawon; ar gyfartaledd mae tua 250 yn hyfforddi bob blwyddyn ond er mwyn gwireddu uchelgais strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr y Llywodraeth, ac er mwyn gwireddu cynnwys y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg sirol newydd, mae angen yn agosach at 600 o siaradwyr Cymraeg i hyfforddi bob blwyddyn.

Rhaid hefyd sicrhau bod y rheiny nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n siaradwyr Cymraeg hyderus yn derbyn cefnogaeth sgiliau iaith ddigonol i'w galluogi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, neu hyd yn oed i ddysgu yn y  sector cyfrwng Cymraeg. Mae canllawiau categoreiddio ysgolion y Llywodraeth yn dynodi y dylai lleiafswm o 15% o weithgareddau mewn ysgolion ble Saesneg yw'r prif gyfrwng dysgu ddigwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gynnydd sylweddol, ac mae angen gweithlu gyda sgiliau Cymraeg digonol i wireddu hyn.

Yn naturiol mae canlyniadau siomedig cyfrifiad 2021 wedi symbylu trafodaeth sylweddol ynghylch dyfodol addysg a'r iaith Gymraeg. Ac fel y cyfeiriwyd ato uwchben, mae gwireddu uchelgais strategaeth Cymraeg 2050 yn ddibynnol i raddau helaeth iawn ar ddatblygu siaradwyr Cymraeg, drwy'r ysgolion Cymraeg a dwyieithog, ac mewn niferoedd cynyddol o ysgolion ble mae'r Saesneg yn brif gyfrwng addysgu. Mae'r cyfrifiad wedi dangos cwymp sylweddol yn y nifer o blant

oed 3-15 a nodir eu bod yn siarad Cymraeg mewn ardaloedd ble mae mwyafrif helaeth yr ysgolion yn rhai sy’n addysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gweithredu cadarn ac effeithiol mewn perthynas ag addysg gychwynnol athrawon.

Cyhoeddodd y Llywodraeth Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg ym mis Mehefin 2022 ac er nad yw’r cynllun yn ddigon uchelgeisiol na phellgyrhaeddol, mae’n cynrychioli cam pwysig ymlaen. Trwy weithredu’r Cynllun yn effeithiol, a gan adeiladu ar y Cynllun, mae’r Coleg o’r farn bod modd cryfhau prosesau cynllunio’r gweithlu addysg, ac yn arbennig felly'r gweithlu addysg Cymraeg. Un ffordd amlwg o wireddu hyn ydy trwy’r gwaith sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r meini prawf achredu ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer cylch achredu 2023-27. Hoffai’r Coleg dynnu sylw’r Pwyllgor at yr ymgynghoriad hollbwysig hwn sydd yn cau ar 19 Ionawr 2023.

Mae rôl cwbl allweddol gyda Phartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon i’w chwarae wrth ddatblygu gweithlu dwyieithog y dyfodol ar gyfer ein system ysgolion yn ei chyfanrwydd. Mae’n dda nodi felly fod y Meini Prawf diwygiedig yn adlewyrchu y rôl allweddol yma mewn ambell fan, ond mae sawl man arall ble nad yw’r meini prawf wedi eu diwygio. Mae hyn yn golygu fod y meini prawf yn gallu bod yn anghyson; ac yn sicr ddim bob tro yn adlewyrchu cyhoeddiadau polisi diweddar Llywodraeth Cymru.

I sicrhau’r newid sydd angen, dymuna’r Coleg weld meini prawf sy’n gosod disgwyliadau cir, cadarn a manwl ynghylch y ddarpariaeth sgiliau iaith ar gyfer pob hyfforddai. Byddai hyn yn fodd o sicrhau bod y ddarpariaeth sgiliau iaith yn fwy cyson, ac yn cael ei ddarparu i’r safon angenrheidiol ar draws yr holl ddarparwyr. Mae cryfhau statws a’r disgwyliadau ynghylch y Fframwaith Cymwyseddau Iaith yn hollbwysig yn hyn o beth.

Yn gyffredinol felly, mae’r meini prawf achredu diwygiedig yn cynnwys rhywfaint o gynnydd o ran y Gymraeg, ond yn sylfaenol, mae’n ymddangos fod y Gymraeg (neu ofynion penodol ychwanegol) wedi eu mewnosod mewn mannau penodol, heb ystyried y ddogfen fel cyfanwaith a nad yw’r disgwyliadau ar y darparwyr yn mynd ddigon pell i sicrhau’r newid sydd angen. Byddai modd golygu’r ddogfen mewn dull mwy cydlynus er mwyn sicrhau bod disgwyliadau’r Llywodraeth o ran y Gymraeg yn treiddio trwy’r ddogfen gyfan.

Ymhellach i ddiwygio cynnwys y meini prawf, nid yw’r Coleg o’r farn bod y trefniadau monitro ac atebolrwydd presennol yn ddigon cadarn i ddarparu sicrwydd bod y meini prawf yn ymwneud â’r Gymraeg yr ymrwymir iddynt yn cael eu gweithredu yn gyson ac yn effeithiol ar draws y partneriaethau. Dymuna’r Coleg weld fframwaith gadarnach yn cael ei ddatblygu i sicrhau fod y meini prawf sy’n ymwneud â’r Gymraeg yn cael eu gweithredu.

Mae’r heriau sy’n bodoli o ran sicrhau cyflenwad digonol o athrawon all ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn adlewyrchu patrymau a heriau mwy cyffredinol yn y maes hyfforddi, recriwtio a dargadwedd athrawon. Mae’r Coleg yn cydnabod bod y ffactorau sy’n cyfrannu at hyn yn rhai dyrys ac yn cynnwys canfyddiadau ynglŷn â

statws y proffesiwn yn ogystal â chyflog ac amodau gwaith athrawon. Cred y Coleg ei fod yn gwbl allweddol bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r heriau hyn ar gyfer y proffesiwn cyfan. Ond, mae sicrhau meini prawf achredu cadarn o ran y Gymraeg, fydd mewn lle am y bedair blynedd nesaf o leiaf, yn fodd ymarferol o sicrhau bod hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru yn ffit i bwrpas yn y cyd-destun ieithyddol presennol a gofynnwn i'r Llywodraeth sicrhau bod y meini prawf terfynol yn gyson gyda'u hymrwymiadau polisi eraill mewn perthynas â'r Gymraeg ac addysg.

Yn gywir,



**Dr Dafydd Trystan**

**Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol**